

Gweithgareddau Allgymorth
Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol
Prifysgol Aberystwyth

Yn sgil y sefyllfa bresennol o ran Covid-19, mae'r rhestr hon wedi'i haddasu dros dro fel mai'r unig weithdai sy'n cael eu cynnwys yw'r rhai y gellir eu cynnal o bell. I weld y rhestr ddiweddaraf, ewch i'n Hwb Allgymorth ar <https://users.aber.ac.uk/nar25/indexCy.html>

Teitl	Cynulleidfa*	Math o Weithgaredd	Crynodeb
Archwilio'r Planedau	Bl. 9-13	Cyflwyniad	Cyflwyniad ar y planedau yng nghysawd yr haul a'r tu hwnt.
Y Bydoedd o amgylch Sêr Pell	Bl. 11-13	Cyflwyniad a Gweithdy	Sut gallwn ni ddefnyddio sbectrwm seren i ganfod ac archwilio planedau allanol?
Diemyntau	Bl. 11-13	Cyflwyniad a Gweithdy	Nodweddion diemyntau a sut maent yn cael eu defnyddio mewn technoleg newydd.
Disiau Annhrosaid	Bl. 10-13	Gweithdy	Gweithdy sy'n defnyddio disiau gwahanol i'r arfer er mwyn archwilio'r syniad o natur drosaid mewn mathemateg. Yn defnyddio dadleuon tebygolrwydd a chyfrif .
Swigod	Bl. 11-13	Cyflwyniad a Gweithdy	Gweithdy ar fathemateg ffilmiau sebon. Yn cwmpasu trigonometreg a chalcwlws (trobwyntiau).
Rasio'r Ddraig	Bl. 5-9	Gweithdy	Gweithdy i ddechrau archwilio tebygolrwydd trwy gyfrwng gemau dis.

Deallusrwydd Artificial	Bl. 9-13	Cyflwyniad Rhyngweithiol	Beth yw 'deallusrwydd'? A all peiriant fod yn 'ddeallus'?
Roboteg	Bl. 4-13	Cyflwyniad Rhyngweithiol	Cyflwyniad i roboteg – Beth yw robot?
Lego Mindstorms	Bl. 5-13	Gweithdy	Rhaglennu robotiaid i gyflawni tasgau yn annibynnol.
Robot Dynolffurf	Bl. 5-13	Gweithdy	Gweithgaredd hwyllog i dimau er mwyn dangos cymhlethdodau rhaglennu robotiaid
Mae'r Rhaglen yn Dweud...	Bl. 1-4	Gweithdy	Gweithdy sy'n canolbwyntio ar sgiliau rhaglennu cynnar.
Scratch	Bl. 3-9	Gweithdy	Gweithdai amrywiol, o gyflwyno rhaglennu i greu animeiddiadau a gemau.
Creu Gwefannau	Bl. 5-13	Cyflwyniad a Gweithdy	Sut i ddylunio a chreu gwefan gan ddefnyddio HTML a CSS
Bloiciau Crwbanod: Polygonau Rheolaidd	Bl. 5-9	Gweithdy	Gweithdy ar wneud rhaglenni lluniadu, gan ddefnyddio rhaglennu bloc, i gynhyrchu siapiau a phatrymau penodol.
Newyddion Ffug	Bl. 10-13	Cyflwyniad Rhyngweithiol	Beth yw newyddion ffug? Ers pryd y mae'n bodoli? Sut y gallwn ei ddarganfod? Pam ei fod yn broblem?
Diogelwch a'r Rhyngrwyd	Bl. 7-9	Cyflwyniad a Gweithdy	Sut i'ch cadw eich hun yn ddiogel ar-lein.
Marchnata	Bl. 9-13	Cyflwyniad a Gweithdy	Gweithdy sy'n astudio twf busnesau a marchnata.

*Mae oed y gynulleidfa yn cynnig canllaw ar gyfer deunyddiau gweithdy sydd eisoes ar gael, ond gellir trefnu i addasu deunyddiau ar gyfer gwahanol anghenion neu grwpiau oed.

Am ragor o fanylion ac i archebu gweithgaredd, cysylltwch â:

Natalie Roberts (Darlithydd Cyswllt: Allgymorth Gwyddoniaeth)

E-bost: nar25@aber.ac.uk